# DAVIES, JOHN (1772 - 1855), cenhadwr ac athro ysgol

**Enw:** John Davies
**Dyddiad geni:** 1772
**Dyddiad marw:** 1855
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cenhadwr ac athro ysgol
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Addysg
**Awdur:** Evan Lewis Evans

Bu'n genhadwr o dan Gymdeithas Genhadol Llundain yn Ynysoedd Môr y Deau am 54 mlynedd, ac athro ysgol o dan Thomas Charles o'r Bala yn Llanwyddelan yn 1800; ganwyd 11 Gorffennaf 1772 yn fferm fechan Pendugwm, ym mhlwyf Llanfihangel-yng-Ngwynfa, Sir Drefaldwyn. Mab i wehydd ydoedd, ac wedi bod am ychydig addysg yn ysgolion Madam Bevan, bu'n cadw ysgol ei hun yn Llanrhaeadr-ym-Mochnant. Ymaelododd gyda'r Methodistiaid a addolai mewn t   annedd o'r enw Penllys. Pan ofynnwyd am athrawon i ynys Tahiti, barnwyd ei fod yn gymwys i'r gwaith, a hwyliodd ef a'i briod tuag yno, 5 Mai 1800. Bu Elizabeth Davis yn ymweld ag ef yno.

Yr oedd o'r un ardal ag Ann Griffiths, cynhwyswyd ychydig dudalennau o'i waith yn y gyfrol *Gwaith Ann Griffiths* yng '*Nghyfres y Fil*', ac ysgrifennai'n fynych at John ei brawd, ac y mae llu o'i lythyrau at y Parch. John Hughes, Pont Robert, ar glawr.

Paratoes ramadeg a geiriadur o iaith Tahiti, trosodd *Taith Pererin*, cyfieithodd rannau helaeth o'r *Testament Newydd* a'r Salmau, catecism Brown, *catecism Westminster* ac amryw o lyfrau llai. Cyhoeddwyd ei *History of the Tahitian Mission, 1799-1830*, gol. C. W. Newbury (Caergrawnt, 1962).

Llafuriodd mewn dellni am y 10 mlynedd olaf o'i oes, a bu farw 19 Awst 1855 ar ôl tymor difwlch o 55 mlynedd dros y don.

## Awdur

**Y Parchedig Ddr Evan Lewis Evans**, (1898 - 1978)

## Ffynonellau


R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894), 40-1

G. Penar Griffith, *Cenhadon Cymreig*, 129-33

E. Lewis Evans, *Cymru a'r Gymdeithas Genhadol, sef hanes ei Chychwyn* (1945), 30, 36, 59, 181, 193


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: John Davies, Tahiti

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 39501896

Wikidata: Q20733372


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu